**From:** **edwvalleydesigns** info@edwvalleydesigns.co.uk
**Subject:** Fwd: Costau byw: Help gyda'ch biliau cyfleustodau! I Cost-of-living: Help with your utilities' bills!
**Date:** 30 September 2022 at 23:30
**To:**

E

# Costau byw: Help gyda'ch biliau cyfleustodau!

Bydd pob aelwyd ym Mhowys yn derbyn £400 tuag at eu biliau ynni y gaeaf hwn, o ganlyniad i ehangu Cynllun Cymorth Biliau Ynni Llywodraeth y DU.

Bydd y grant hwn yn cael ddidynnu o'r hyn sy'n ddyledus i chi gan eich cyflenwr ynni, dros gyfnod o chwe mis o fid Hydref, os ydych yn gwsmer debyd neu gredyd uniongyrchol; neu bydd yn cael ei gymhwyso i'ch mesurydd trydan neu ei dalu drwy daleb os oes gennych fesuryddion talu ymlaen llaw.

Yn ogystal â hyn, bydd aelwydydd ar amrywiaeth o fudd-daliadau prawf modd yn derbyn taliad o £650 eleni, a fydd yn digwydd mewn dau randaliad; tra bydd aelwydydd pensiynwyr yn derbyn £300 ychwanegol; a phobl sy'n derbyn budd-daliadau anabledd yn cael taliad unigol o £150 o fis Medi.

- Cymorth costau byw Llywodraeth y DU:https://www.gov.uk/government/publications/cost-of-living-support/cost-of-living-support-factsheet-26-may-2022

Gallwch hefyd gael help os ydych yn cael trafferth talu eich biliau ynni, neu ychwanegu arian at eich mesurydd talu ymlaen llaw, drwy siarad â'ch cyflenwr ynni. Gallai hyn gynnwys help drwy'r Cynllun Gostyngiad Cartref Cynnes, a fydd yn ailagor eto ym mis Tachwedd.

- Cynllun Gostyngiad Cartref Cynnes:https://www.gov.uk/cynllun-gostyngiad-cartrefi-cynnes

Os ganwyd chi cyn 26 Medi 1955, rydych chi hefyd yn debygol o allu hawlio Taliad Tanwydd Gaeaf, swm untro blynyddol o rhwng £250 a £600 i'ch helpu i dalu eich biliau gwresogi.

- Taliad Tanwydd Gaeaf: https://www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf

Mae Taliadau Tywydd Oer hefyd ar gael i helpu i dalu am gostau gwresogi ychwanegol pan fydd yn oer iawn, os byddwch eisoes yn cael Credyd pensiwn, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm neu Gredyd Cynhwysol.

- Taliadau Tywydd Oer: https://llyw.cymru/cynllun-cymorth-tanwydd-gaeaf-cymru-2022-i-2023

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig taliad untro o £200 tuag at dalu biliau tanwydd gaeaf, sydd yn ychwanegol at y cymorth sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU. Mae disgwyl i'r cynllun agor ar 26 Medi a bydd aelwydydd sy'n derbyn ystod ehangach o fudd-daliadau yn gymwys.

- Cynllun cymorth tanwydd gaeaf Cymru:https://llyw.cymru/cynllun-cymorth-tanwydd-gaeaf-cymru-2022-2023

Os ydych yn cael trafferth talu eich bil dŵr, dylech gysylltu â'ch cyflenwr. Gallai'r cymorth sydd ar gael gynnwys gostyngiad o £230, os ydych chi'n deulu sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ar brawf modd neu daliad y Cynllun Cymorth Costau Byw.

- Dŵr Cymru – cymorth gyda biliau:https://www.dwrcymru.com/cy-gb/support-with-bills
- Hafren Dyfrdwy – help i dalu eich bil:https://www.hdcymru.co.uk/my-account/help-when-you-need-it/help-with-paying-your-bill/

Os ydych chi'n poeni am dalu eich bil band eang neu ffôn symudol, dylech gysylltu â'ch cyflenwr, gan y gallai'r cyflenwr roi cynllun talu neu gefnogaeth arall ar waith i'ch helpu i gadw mewn cysylltiad.

Os na allwch gadw i fyny â'ch cerdyn credyd, benthyciad neu ad-daliadau morgais, gall eich credydwyr gytuno i wyliau talu tymor byr, neu os siaradwch â chynghorydd dyled proffesiynol mae'n bosibl y gallwch gael mynediad i Lle i Anadlu – pan na ellir cymryd unrhyw gamau gorfodi neu daliadau eu hychwanegu – trwy'r Cynllun Seibiant Dyledion. Gall Gwasanaeth Cyngor Ariannol Cyngor Sir Powys hefyd eich helpu gydag ymholiadau dyled, drwy ffurflen ar-lein: https://cy.powys.gov.uk/gyngorarian Neu gallwch ffonio 01874 612153 neu anfon e-bost at: wrteam@powys.gov.uk

Mae cyngor ar ddyledion hefyd ar gael drwy:

- Cyngor ar Bopeth Powys:https://www.powyscitizensadvice.org.uk/ Ffoniwch: 0345 6018421 (Dydd Mawrth, Dydd Mercher a dydd Iau 9yb – 3yp) Ysgrifennwch at: Cyngor ar Bopeth Powys, Ladywell House, Y Drenewydd, Powys, SY16 16QS.
- Advicelink Cymru:https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-

# Cost-of-living: Help with your utilities' bills!

All Powys households are to receive £400 towards their energy bills this winter, through an expansion of the UK Government's Energy Bills Support Scheme.

This grant will be deducted from what you owe by your energy supplier, over six months from October, if you are a direct debit or credit customer; or it will be applied to your electricity meter or paid via a voucher if you have pre-payment meters.

Households on a range of means tested benefits will also receive a payment of £650 this year, made in two instalments; while pensioner households will receive an extra £300; and people getting disability benefits will receive a one-off payment of £150 from September.

- UK Government cost-of-living support:https://www.gov.uk/government/publications/cost-of-living-support/cost-of-living-support-factsheet-26-may-2022

You can also get help if you are struggling to pay your energy bills, or topping up your pre-payment meter, by speaking to your energy supplier. This could include help through the Warm Home Discount Scheme, which is due to reopen again in November.

- Warm Home Discount Scheme:https://www.gov.uk/the-warm-home-discount-scheme

If you were born before 26 September 1955, you are also likely to be able to claim a Winter Fuel Payment, an annual one-off sum of between £250 and £600 to help you pay your heating bills.

- Winter Fuel Payment: https://www.gov.uk/winter-fuel-payment

Cold Weather Payments are also available to help pay for extra heating costs when it is very cold, if you already get Pension Credits, Income Support, Income-based Jobseeker's Allowance, Income-related Employment and Support Allowance or Universal Credit.

- Cold Weather Payments:https://www.gov.uk/cold-weather-payment

The Welsh Government is also offering a one-off £200 payment towards paying winter fuel bills, which is in addition to the support being offered by the UK Government. The scheme is due to open on 26 September and households receiving a wider range of benefits will be eligible.

- Wales winter fuel support scheme:https://gov.wales/wales-winter-fuel-support-scheme-2022-2023

If you are having difficulty paying your water bill, you should contact your supplier. Help could include a £230 reduction, if you are a family receiving means-tested free school meals or a Cost of Living Support Scheme payment.

- Dŵr Cymru/Welsh Water – support with bills:https://www.dwrcymru.com/en/support-with-bills
- Hafren Dyfrdwy – help with paying your bill:https://www.hdcymru.co.uk/my-account/help-when-you-need-it/help-with-paying-your-bill/

If you are concerned about paying your broadband or mobile phone bill, you should contact your supplier, as they may be able to put a payment plan or other support in place to help you stay connected.

If you are unable to keep up with your credit card, loan or mortgage repayments, your creditors may agree to a short-term payment holiday, or if you talk to a professional debt advisor you may be able to access Breathing Space – when no enforcement action can be taken or charges added – through the Debt Respite Scheme. Powys County Council's Money Advice Service can help with debt queries, through an online form: https://en.powys.gov.uk/moneyadvice Or you can call 01874 612153 or email: wrteam@powys.gov.uk

Debt advice is also available from:

- Powys Citizens Advice:https://www.powyscitizensadvice.org.uk/ Call: 0345 6018421(Tuesday, Wednesday and Thursday, 9am – 3pm) Write to: Citizens Advice Powys, Ladywell House, Newtown, Powys, SY16 1QS.
- Advicelink Cymru:https://www.citizensadvice.org.uk/wales/about-

[ni/our-work/advice-partnerships/advicelink-cymru/](ni/our-work/advice-partnerships/advicelink-cymru/)Ffoniwch: 0800 702 2020 (Dydd Llun – Dydd Gwener, 9am – 5pm) Relay UK (os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn): 18001, yna 08082 505 720.

Mae rhagor o gyngor am gymorth gyda chostau byw hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:[https://llyw.cymru/cael-help-gyda-chostau-byw](https://llyw.cymru/cael-help-gyda-chostau-byw)

**Jane Thomas**

Pennaeth Cyllid

[us/our-work/advice-partnerships/advicelink-cymru/](us/our-work/advice-partnerships/advicelink-cymru/) Call: 0800 702 2020 (Monday – Friday, 9am – 5pm) Relay UK (if you can't hear or speak on the phone): 18001 then 08082 505 720.

Further advice on help with the cost-of-living is also available on the Welsh Government's website:[https://gov.wales/get-help-cost-living](https://gov.wales/get-help-cost-living)

**Jane Thomas**

Head of Finance

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.
You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay.


Powys CRYFACH tecach GWYRDDACH | STRONGER fairer GREENER

Mae'r e bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu gyda Cyngor Sir Powys ar unwaith. Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud gyda busnes swyddogol Cyngor Sir Powys yn bersonol i'r awdur ac nid yw'n awdurdodedig gan y Cyngor.

This e mail and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact Powys County Council at once. Any content that is not pertinent to Powys County Council business is personal to the author, and is not necessarily the view of the Council.